

# GLENN WEBBE

## ETIFEDDIAETH

Ganed Glenn Webbe yng Nghaerdydd i rieni o St Kitts a gyrhaeddodd fel rhan o genhedlaeth y Windrush.

Tyfodd i fyny yn yr unig deulu Du ar stryd - siapiodd hyn ei wydnwch.

Daeth disgyblaeth a hiwmor Caribïaidd yn ffyrdd o ddelio gyda gwahaniaeth ac o ddeall y byd o sawl safbwynt.

## CYMRU YW...

### BALCHDER ANRHYDEDD PERTHYN

Caerdydd oedd ei gartref, ond roedd teimlo'n perthyn yn cymryd amser.

Daeth y foment arwyddocaol pan gafodd ei ddewis i chwarae rygbi dros Gymru.

Roedd gwisgo'r crys coch yn gwneud iddo deimlo, o'r diwedd, ei fod yn perthyn i'r wlad lle'r oedd wedi tyfu fyny.



# RYGBI



## CYFRANIAD

Cynrychiolodd Glenn Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd cyntaf, gan sgorio hatric gofiadwy ar brif lwyfan y byd rygbi.

Roedd ei daith yn gofyn am ddyfalbarhad - goresgyn rhwystrau ac amheuon er mwyn ennill ei le.

Weithiau mae'r cyfraniad yn syml: aros, dyfalbarhau a phrofi dy fod yn perthyn.

## CRYFDERAU A LLAWENYDD

Mae gwydnwch, hiwmor a phersbectif wedi siapio taith Glenn.

Mae'n gwerthfawrogi dyfalbarhad, gostyngeiddrwydd a'r balchder o gynrychioli Cymru.

“**WRTH FEDDWL AM Y DRYSAU CAEEDIG NIFERUS AR DDECHRAU EI YRFA, DYSGODD GLENN: MAEN NHW'N DWEUD 'NA', OND MEWN GWIRIONEDD MAEN NHW'N MEDDWL 'DIM ETO'.**”